# Adroddiad ACC ar Gyfrifon Adnoddau Cyfunol 2006-07 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Dyddiad: 25 Hydref 2007**
**Fersiwn: TERFYNOL**
**Cyfeirnod: 779A2007**

*Nodyn i ddarllenwyr*:

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn ar y cyd â'i farn archwilio ddiamod ar Gyfrifon Adnoddau Cyfunol 2006-07 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Daw testun yr adroddiad yn y ddogfen hon o dudalennau 96 i 116 o ddogfen lawn Cyfrifon 2006-07, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Hydref 2007. Gellir gweld y ddogfen lawn honno drwy'r we-gyswllt canlynol:

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=63001&ds=10/2007

# Cynnwys

Cynnwys ... 2

**1. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drefniadau rheoli prosiect cadarn ar waith mewn ymateb i gyhoeddiadau'r Prif Weinidog, gyda chyfraniad llawn y cyrff hynny a glustnodwyd ar gyfer uno** ... 4

Sicrhaodd Llywodraeth y Cynulliad cyn yr uno fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried ac wedi pasio'r holl ddeddfwriaeth yr oedd ei hangen i weithredu'r newidiadau a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ... 4

Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad strwythur rheoli prosiect cadarn ar waith, a chwaraeodd ran hollbwysig yn y gwaith o oruchwylio'r broses uno a'i chyflawni ... 5

Yn ogystal â'r strwythur cadarn, chwaraeodd arweiniad ac ymwneud uwch reolwyr a swyddogion eraill y cyrff a noddir ran yr un mor bwysig yn y broses uno ... 6

Yn ystod y misoedd cyn yr uno, rhoddodd y cyrff brosesau llywodraethu cadarn ar waith a sicrhaodd y câi cyfrifoldebau eu trosglwyddo'n drefnus i Lywodraeth y Cynulliad ... 7

Cyn ac ar ôl yr uno, atgyfnerthodd Llywodraeth y Cynulliad ei threfniadau llywodraethu adrannol, i ryw raddau drwy fabwysiadu arfer da'r hen gyrff a noddwyd ... 8

**2. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad flaenoriaeth i'r angen am barhad pob gwasanaeth ariannol ac adrodd hanfodol a hynny'n gwbl gywir** ... 9

Er i'r broses uno olygu galwadau sylweddol ychwanegol ar Lywodraeth y Cynulliad a'r cyrff a noddwyd ganddi, llwyddwyd i gynllunio a gweithredu'r broses uno a hefyd i gynnal eu gweithgareddau o ddydd i ddydd ... 9

Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drefniadau boddhaol ar waith ar gyfer paratoi cyfrifon 2005-06 yr hen CCNCau ar ôl uno ... 9

Terfynodd Llywodraeth y Cynulliad y rhan fwyaf o'r trefniadau ariannol nad oedd angen iddi eu cadw ar ôl yr uno mewn ffordd amserol, er na roddodd swyddogion ystyriaeth lawn i gyfleoedd i leihau costau pob contract a oedd yn parhau drwy drafod telerau ... 10

Er bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i reoli'r broses uno, arweiniodd at ambell i effaith brin ond arwyddocaol ar reoli ariannol ... 10

Bu'r dasg o integreiddio cyflogresi'r gwahanol CCNCau â system gyflogres Llywodraeth y Cynulliad ei hun ar ôl y broses uno yn fwy trafferthus na'r disgwyl ... 10

Ar gyfer 2006-07, roedd y perfformiad talu'n brydlon yn gyffredinol wedi parhau yn uwch na meincnod y sector cyhoeddus sef 95 y cant, er bod uno ELWa ag AADGOS wedi arwain at ddirywiad ym mherfformiad talu'r adran honno yn y byrdymor yn y cyfnod ar ôl uno'r CCNCau ... 11

Ers yr uno, mae'r cynnydd sylweddol yn nifer trafodion derbyniadau wedi arwain at oedi cyn bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn eu dyrannu i'r adran berthnasol ... 13

Mae trefniadau adrodd ariannol Llywodraeth y Cynulliad yn casglu ac yn cofnodi llawer ond nid pob un o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r broses uno ... 14

Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gwireddu'r holl arbedion arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r broses uno eto, ond mae'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yn fwy na'r rhagamcanion gwreiddiol ... 16

Penderfynodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a hynny'n rhesymol, leihau risgiau gweithredol ac ariannol y broses uno drwy gadw eu systemau ariannol cyfredol yn y byrdymor....... 17

Drwy wneud y newidiadau lleiaf posibl i systemau craidd ar ddyddiad yr uno, ni fachodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar y cyfle i ddiwygio eu strwythur codio ariannol 17

I staff yr hen CCNCau aeth y wybodaeth reoli a oedd ar gael iddynt yn llai defnyddiol 18

**3. Cwblhawyd cyfrif adnoddau cyfunol terfynol 2006-07 yn gynt nag yn 2005-06, er bod llithriant o ran cyfrifyddu'r broses uno yn golygu na chyflawnwyd amserlen prosiect uchelgeisiol yn llwyr** ....... 19

Methodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â chyflawni o dipyn yr amserlen arfaethedig ar gyfer coladu'r gwahanol asedau a rhwymedigaethau a etifeddwyd oddi wrth yr hen gyrff yn un Fantolen Agoriadol ar 1 Ebrill 2006 ....... 19

Oherwydd yr oedi wrth baratoi mantolen agoriadol 1 Ebrill 2006, ynghyd ag ansawdd gwael y data a gafwyd, penderfynodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gwtogi ar elfen bwysig o'u proses arfaethedig o baratoi cyfrif adnoddau cyfunol 2006-07 ....... 21

Gwelwyd ôl-groniad mawr yn datblygu o ran cwblhau cysoniadau banc misol yn amserol yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-07 ....... 22

Golygai'r problemau hyn i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fethu â chyrraedd eu targed uchelgeisiol o ran cyhoeddi cyfrif adnoddau cyfunol 2006-07, er i'r cyfrif gael ei gwblhau'n gynt nag yn 2005-06 ac erbyn terfyn amser y Trysorlys....... 23

**4. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i drawsnewid ei threfniadau rheoli ariannol. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu llwyddiant y rhaglen gymhleth hon, bydd yn hanfodol bod uwch swyddogion yn parhau i fod yn gyfrifol am y broses newid er mwyn i'r manteision arfaethedig gael eu gwireddu**....... 24

Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod yn deg fod angen newid eu trefniadau rheoli ariannol yn llwyr er mwyn ymateb i nifer o heriau sy'n ymwneud â materion sy'n hanfodol i fusnes, gan gynnwys canlyniadau uno'r CCNCau....... 24

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau ar Raglen Newid gymhleth ac uchelgeisiol gyda'r bwriad o drawsnewid ei threfniadau rheoli ariannol, moderneiddio ei phrosesau busnes a helpu i gyflwyno gwelliannau cyffredinol yn y ffordd y darperir gwasanaethau. 25

Mae'n rhy gynnar i asesu a fydd y Rhaglen Newid yn arwain at yr holl fanteision arfaethedig, ond bydd proses rheoli risg gadarn a pharhad mewn perchnogaeth o'r broses newid ymhlith uwch swyddogion yn hollbwysig i'w llwyddiant ....... 26

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Gyfrifon Adnoddau Cyfunol 2006-07

**Yn yr adroddiad hwn, nodaf nifer o faterion sy'n ymwneud ag uno pedwar Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2006, ond heb newid fy marn archwilio ddiamod, a gwnaf sylwadau ar ddatblygiadau pwysig eraill o ran rheolaeth ariannol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

**Mae pedair rhan i'm hadroddiad, sef:**

1. **rheoli'r broses uno fel prosiect;**
2. **parhad busnes yn ystod ac ar ôl y broses uno ei hun;**
3. **effaith y broses uno ar baratoi a chyhoeddi cyfrifon 2006-07;**
4. **cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i drawsnewid ei threfniadau rheoli ac adrodd ariannol.**

## 1. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drefniadau rheoli prosiect cadarn ar waith mewn ymateb i gyhoeddiadau'r Prif Weinidog, gyda chyfraniad llawn y cyrff hynny a glustnodwyd ar gyfer uno

### Sicrhaodd Llywodraeth y Cynulliad cyn yr uno fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried ac wedi pasio'r holl ddeddfwriaeth yr oedd ei hangen i weithredu'r newidiadau a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog

1.1. Yn dilyn cyhoeddiadau'r Prif Weinidog ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2004 fod bwriad i uno pedwar Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad[1] (CCNCau) â Llywodraeth Cynulliad Cymru, sefydlwyd trefniadau rheoli prosiect cadarn i oruchwylio'r broses uno.

1.2. Roedd hwn yn ymarfer ad-drefnu mawr a chymhleth iawn, a olygai drosglwyddo tua 1,600 o staff o'r hen CCNCau i gyflogaeth Llywodraeth y Cynulliad ei hun, ynghyd ag amrywiaeth mawr o gyfrifoldebau, pwerau a swyddogaethau statudol yr oedd y cyrff hynny yn ymgymryd â hwy gynt. Bu'n rhaid ymgymryd â nifer o dasgau prosiect megis cysoni telerau ac amodau pob aelod o staff a chynllunio a gweithredu fframweithiau rheoli mewnol cyson drwy sefydliad estynedig Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y dasg o gymathu'r diwylliannau busnes tra gwahanol a fodolai ymhlith y cyrff a oedd yn uno hefyd yn creu nifer o heriau mawr i staff a rheolwyr fel ei gilydd.

[1] O 1 Ebrill 2007, cafodd y cyrff hyn eu hailenwi yn Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLCau)

**1.3.** Er mwyn i'r broses uno fynd rhagddi ar 1 Ebrill 2006, roedd angen gwneud diwygiadau mawr i'r ddeddfwriaeth sylfaenol gyfredol, ynghyd â chymeradwyo pedwar Offeryn Statudol ym mis Tachwedd 2005. Roedd mecanweithiau galluogi eraill yn cynnwys:

- cael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r Cynigion perthnasol a oedd yn dirprwyo pwerau trosglwyddo i'r Prif Weinidog;
- dirprwyo o'r Prif Weinidog i Weinidogion Cymru;
- dirprwyo o Weinidogion Cymru i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad;
- diwygio trefniadau dirprwyo'r Ysgrifennydd Parhaol ei hun (a wnaed o dan adran 62(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) i adlewyrchu'r strwythurau rheoli arfaethedig wedi'r uno ar gyfer Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau newydd[2] (AADGOS) a'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (AMARh)[3].

## Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad strwythur rheoli prosiect cadarn ar waith, a chwaraeodd ran hollbwysig yn y gwaith o oruchwylio'r broses uno a'i chyflawni


**1.4.** Oherwydd amseriad uno'r CCNCau roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gallu dynodi'r gwaith o reoli'r broses uno ei hun yn brosiect craidd o fewn eu 'Rhaglen Newid' fewnol, ehangach, a grëwyd ganddynt eisoes mewn ymateb i *Creu'r Cysylltiadau*[4]. Oherwydd bodolaeth y Rhaglen Newid honno teimlai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad eu bod mewn sefyllfa dda i ymateb i her y broses uno.

**1.5.** Cafodd **Bwrdd y Rhaglen Newid** (y Bwrdd), sef is-bwyllgor o Fwrdd Gweithredol Llywodraeth y Cynulliad o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, ei ddynodi'n fwrdd y rhaglen ar gyfer y broses uno. Cyfarfu'r Bwrdd yn fisol o fis Mawrth 2005 a phenderfynodd y câi'r rhaglen uno ei rheoli yn unol â'r egwyddorion a amlinellir gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn '*Managing Successful Programmes: OGC's Best Practice Guide'*, gyda phrosiectau unigol yn mabwysiadu methodoleg PRINCE 2. Amlinellodd y Bwrdd ei strwythur rheoli ar gyfer y prosiect, y trefniadau atebolrwydd, cyfrifoldebau timau prosiect unigol a'r ffordd y câi'r gwahanol gyd-ddibyniaethau eu rheoli yn ei Ddogfen Diffinio Rhaglen. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthyf fod cymhlethdod y trefniadau rheoli prosiect yn adlewyrchu natur a maint y broses uno, ac yn defnyddio gwersi a ddysgwyd o raglenni newid blaenorol mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus. Nodir strwythur rheoli prosiect Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer proses uno'r CCNCau yn Arddangosyn 1.

---

[2] A ailenwyd yn Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)
[3] A ailenwyd ers hynny yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AETh)
[4] *Creu'r Cysylltiadau – Darparu Gwell Gwasanaethau ar gyfer Cymru* - Cynulliad Cenedlaethol Cymru Hydref 2004

**Dengys Arddangosyn 1 y Strwythur Rheoli Prosiect a fu'n sail i broses uno'r CCNCau**




## Yn ogystal â'r strwythur cadarn, chwaraeodd arweiniad ac ymwneud uwch reolwyr a swyddogion eraill y cyrff a noddir ran yr un mor bwysig yn y broses uno

**1.6.** Yn fuan ar ôl cyhoeddiad y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2004 daeth Prif Weithredwyr y CCNCau a oedd yn uno, Cyfarwyddwyr Corfforaethol Llywodraeth y Cynulliad a'r undebau llafur ynghyd i sefydlu'r **Gweithgor Uno.** I ddechrau cynhaliodd y Gweithgor astudiaeth gwmpasu i ystyried cost a budd, nodi risgiau, ystyried y strwythurau gweithredol, a chadarnhau'r gwahanol fathau o waith prosiect yr oedd eu hangen wrth baratoi ar gyfer uno. Wrth i'r prosiect cyffredinol fynd yn ei flaen, datblygodd rôl y Gweithgor i ategu'r strwythurau rheoli prosiect ffurfiol yr oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi eu rhoi ar waith.

1.7. Er mwyn goruchwylio'r agweddau rheoli ariannol ar y prosiect uno, crëwyd **Bwrdd Goruchwylio Cyllid**, a oedd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Cyllid y sefydliadau a oedd yn uno, o dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog Cyllid Llywodraeth y Cynulliad. Cyfarfu'r Bwrdd yn fisol i oruchwylio hynt sawl prosiect cyllid unigol, yr oedd pob un ohonynt yng ngofal tîm prosiect ar wahân. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys bancio, derbyniadau, caffael i dalu a chyfrifon ariannol.

1.8. Ymunodd staff o bob un o'r cyrff a oedd yn uno â phob tîm prosiect, fel y gellid nodi a mynd i'r afael â'u gwahanol arferion gwaith a'u hanghenion gweithredol. Daeth pob rheolwr prosiect (pob un yn swyddogion Llywodraeth y Cynulliad eisoes) at ei gilydd bob pythefnos a rhoi adroddiad i **Grŵp Uno'r Rheolwyr Ariannol**, a gynhaliwyd i gyd-fynd â chyfarfodydd misol y Bwrdd Goruchwylio Cyllid. Bu'r amseru hwn yn fodd i sicrhau cyfathrebu dwyffordd effeithiol rhwng rheolwyr prosiect a'r Bwrdd Goruchwylio.

1.9. Roedd trefniadau gwaith tebyg ar waith hefyd drwy'r prosiect uno cyfan, gan greu rhwydwaith cyfathrebu cadarn drwy'r strwythur rheoli prosiect cyfan. Drwy rwydwaith o'r fath bu modd i'r Bwrdd Newid hysbysu'r Bwrdd Gweithredol am hynt y prosiect uno mewn ffordd gyflawn ac amserol ar bob cam o'r ffordd.

## Yn ystod y misoedd cyn yr uno, rhoddodd y cyrff brosesau llywodraethu cadarn ar waith a sicrhaodd y câi cyfrifoldebau eu trosglwyddo'n drefnus i Lywodraeth y Cynulliad

1.10. Rhoddodd yr hen CCNCau drefniadau llywodraethu cadarn ar waith a sicrhaodd fod y broses o symud i Adrannau estynedig Llywodraeth y Cynulliad yn mynd rhagddi'n ddidrafferth. Wrth wneud hyn, chwaraeodd eu Pwyllgorau Archwilio rôl bwysig o ran cydymffurfiaeth a diwydrwydd dyladwy fel rhan o'r broses drosglwyddo.

1.11. Gwelwyd arfer da yn enwedig gan Bwyllgor Archwilio yr hen Awdurdod Datblygu Cymru a baratôdd ddatganiad 'trosglwyddo' ffurfiol i'w ystyried gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol AMARh. Yn y datganiad hwnnw disgrifiwyd rôl, aelodaeth, Cylch Gorchwyl a swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio. Hefyd cynhwysai fanylion penodol am faterion allweddol amrywiol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2005-06. Daeth y datganiad i ben drwy gadarnhau boddhad y Pwyllgor gyda digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg a weithredwyd yn Awdurdod Datblygu Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2005-06.

1.12. Paratowyd crynodeb o'r materion llywodraethu allweddol ar ddyddiad yr uno gan bob un o Bwyllgorau Archwilio'r CCNCau a oedd yn uno. Ystyriwyd y crynodebau hyn yn fanwl gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol adrannol perthnasol Llywodraeth y Cynulliad yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl yr uno, gan sicrhau parhad cadarn o ran goruchwylio llywodraethu a chraffu.

### Cyn ac ar ôl yr uno, atgyfnerthodd Llywodraeth y Cynulliad ei threfniadau llywodraethu adrannol, i ryw raddau drwy fabwysiadu arfer da'r hen gyrff a noddwyd

**1.13.** Cynghorodd y Llif Gwaith Llywodraethu Corfforaethol [gweler Arddangosyn 1] ar lunio'r strwythurau llywodraethu priodol ar gyfer sefydliad estynedig Llywodraeth y Cynulliad. Eu nod oedd rhoi digon o sicrwydd i'r Ysgrifennydd Parhaol (fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu), gan sicrhau ar yr un pryd nad oeddent yn amharu ar weithredu effeithiol ac effeithlon AADGOS ac AMARh estynedig, yr oedd is-Swyddog Cyfrifyddu newydd gael ei benodi ar ben ar y naill a'r llall.

**1.14.** Daeth y llif gwaith i'r casgliad ar gam cynnar mai addasu strwythurau llywodraethu cyfredol Llywodraeth y Cynulliad y byddai angen ei wneud yn hytrach na gwneud newidiadau mawr, a hynny am fod trefniadau llywodraethu Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn datblygu er mwyn diwallu anghenion yr is- Swyddogion Cyfrifyddu adrannol newydd a grëwyd ym mis Ebrill 2005 cyn cyhoeddi'r uno. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys sefydlu Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol adrannol a oedd mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r rolau a gyflawnwyd gan Bwyllgor Archwilio pob CCNC a oedd yn uno. Roeddent hefyd yn cynnwys cyhoeddi llawlyfr cynhwysfawr ar Lywodraethu Corfforaethol i Lywodraeth y Cynulliad a hyfforddiant manwl mewn llywodraethu i swyddogion priodol Llywodraeth y Cynulliad ar ôl yr uno.

**1.15.** Roedd pob un o'r CCNCau a oedd yn uno wedi gweithredu o'r blaen yn unol â chanllawiau arfer gorau'r Trysorlys ar y ffordd y dylai Pwyllgorau Archwilio weithredu yn y sector cyhoeddus. Roedd pob un wedi penodi aelod anweithredol annibynnol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Archwilio, ac wedi mynd ati mewn ffordd gadarn i gynnig her adeiladol i'r uwch dîm rheoli.

**1.16.** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi efelychu'r trefniadau hyn i raddau helaeth yn ei strwythurau a'i phrosesau llywodraethu ar ôl yr uno. Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol pob adran, sy'n cyfateb yn fras i'r Pwyllgor Archwilio mewn CCNC, wedi'i gadeirio gan unigolyn annibynnol. Daeth cadeiryddion Pwyllgorau Llywodraethau Corfforaethol AADGOS ac AMARh o aelodaeth Paneli Cynghori perthnasol y Gweinidogion.

**1.17.** Mae pwyllgor llywodraethu corfforaethol yr Ysgrifennydd Parhaol ei hun a phwyllgorau dau o'r pum adran o Lywodraeth y Cynulliad nad yw'r uno yn effeithio'n uniongyrchol arnynt hefyd yn gweithredu gyda chadeirydd allanol annibynnol. Mae tair adran arall Llywodraeth y Cynulliad wedi penodi uwch swyddog o adran arall i ymgymryd â'r rôl bwysig hon.

# 2. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad flaenoriaeth i'r angen am barhad pob gwasanaeth ariannol ac adrodd hanfodol a hynny'n gwbl gywir

## Er i'r broses uno olygu galwadau sylweddol ychwanegol ar Lywodraeth y Cynulliad a'r cyrff a noddwyd ganddi, llwyddwyd i gynllunio a gweithredu'r broses uno a hefyd i gynnal eu gweithgareddau o ddydd i ddydd

2.1. Mae'n bleser gennyf nodi, yn ystod y cyfnod yn union cyn yr uno ac ar ei ôl, nad wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth o ddirywiad yn gyffredinol yn y gwasanaeth yr oedd Llywodraeth y Cynulliad neu'r CCNCau a oedd yn uno yn ei roi i'w cwsmeriaid allanol a rhanddeiliaid eraill o ran materion ariannol.

### Rhoddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drefniadau boddhaol ar waith ar gyfer paratoi cyfrifon 2005-06 yr hen CCNCau ar ôl uno

2.2. Ar ddyddiad yr uno, trosglwyddodd y cyfrifoldeb am baratoi cyfrifon cau 2005-06 y CCNCau a unwyd a'u cyflwyno i'w harchwilio o Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny i is-Swyddogion Cyfrifyddu'r adrannau perthnasol o Lywodraeth y Cynulliad. Er bod y gwaith o baratoi'r cyfrifon a'r prosesau archwilio'n fwy cymhleth yn eu hanfod nag oeddent mewn blynyddoedd blaenorol, roedd Llywodraeth y Cynulliad yn gallu paratoi'r gwahanol ddatganiadau ariannol drafft i'w harchwilio yn amserol ac i safonau boddhaol.

2.3. Ym mhob achos, roedd yr is-Swyddog Cyfrifyddu a oedd yn gyfrifol am gyfrifon terfynol y CCNC a unwyd yn gallu llofnodi'r cyfrifon hynny yn unol fwy neu lai â'r dyddiadau arfaethedig y cytunwyd arnynt gyda'm staff archwilio. Wrth lofnodi'r Datganiad am Reolaeth Fewnol ar gyfer pob cyfrif, roedd yr is-Swyddog Cyfrifyddu yn gallu cael sicrwydd priodol ynglŷn â gweithredu boddhaol systemau rheolaeth yn y CCNC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06 o'r adroddiadau a roddwyd iddo gan ei Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Cafodd y casgliadau yn yr adroddiadau hynny eu llywio yn eu tro gan y materion a godwyd yn natganiadau ysgrifenedig ffurfiol Pwyllgorau Archwilio'r hen CCNCau.

2.4. Cwblhaodd staff Swyddfa Archwilio Cymru eu harchwiliadau o gyfrifon 2005-06 y CCNCau a unwyd gyda chanlyniadau boddhaol, ac felly roeddwn yn gallu rhoi barn archwilio ddiamod ar bob un o'r cyfrifon hynny ymhell cyn y terfynau amser statudol ar gyfer eu cyhoeddi.

### Terfynodd Llywodraeth y Cynulliad y rhan fwyaf o'r trefniadau ariannol nad oedd angen iddi eu cadw ar ôl yr uno mewn ffordd amserol, er na roddodd swyddogion ystyriaeth lawn i gyfleoedd i leihau costau pob contract a oedd yn parhau drwy drafod telerau

2.5. Lle bynnag y bo modd (er enghraifft, wrth ddarparu meddalwedd wrth-feirws), terfynodd Llywodraeth y Cynulliad bob contract Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a oedd gan y CCNCau a unwyd cyn yr uno gan ddarparu gwasanaethau a gaffaelwyd o dan drefniant TGC 'Merlin' Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gosod gwaith ar gontract yn lle hynny.

2.6. Canfu fy staff mewn rhai achosion fod swyddogion wedi sicrhau taliadau cynnal a chadw is drwy drafod telerau ar gyfer y gwahanol wasanaethau TGCh yr oedd angen i staff yr hen CCNCau eu defnyddio ar ôl dyddiad yr uno. Sicrhawyd y costau is hyn yn gyffredinol drwy dalu am lai o drwyddedau defnyddwyr ar gyfer y systemau hynny, gan fod disgwyl iddynt gael eu gweithredu at ddibenion adalw gwybodaeth o'r archifau yn unig.

2.7. Lle na ellid defnyddio trefniadau Merlin ar gyfer contractau TGCh eraill a drosglwyddwyd, canfu fy staff na wnaed llawer o newidiadau i delerau'r contractau. Yn wir, nid ystyriodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gyfleoedd i leihau costau o'r fath drwy drafod telerau, gan fod costau yn hafal i gost y contractau presennol eisoes wedi'u dyrannu i gyllidebau adrannol. Yn lle hynny, maent yn bwriadu ystyried a yw'r contractau hyn (sy'n werth tua £1.5 miliwn i gyd) yn parhau'n briodol pan fydd angen adnewyddu pob un, er mwyn cadarnhau a ellir gwneud unrhyw arbedion effeithlonrwydd.

## Er bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i reoli'r broses uno, arweiniodd at ambell i effaith brin ond arwyddocaol ar reoli ariannol

2.8. Mewn rhai agweddau penodol ar drefniadau rheoli ariannol ar ôl yr uno a weithredwyd gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, rwyf wedi nodi rhai meysydd lle cafwyd effeithiau andwyol.

### Bu'r dasg o integreiddio cyflogresi'r gwahanol CCNCau â system gyflogres Llywodraeth y Cynulliad ei hun ar ôl y broses uno yn fwy trafferthus na'r disgwyl

2.9. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflogau a thaliadau eraill i gyn-staff ACCAC ac ELWa i system gyflogres Llywodraeth y Cynulliad ar 1 Ebrill 2006. Ar gyfer staff y WDA a WTB penderfynwyd cadw gwasanaeth cyn-ddarparwr cyflogres allanol y WDA am gyfnod o chwe mis arall ar ôl yr uno, fel y gallai trosglwyddo gwasanaethau fesul cam leihau'r risgiau posibl o wallau.

**2.10.** Cynhaliwyd adolygiad o brosesau integreiddio cyflogres ACCAC ac ELWa gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad er mwyn adolygu'r rheolaethau dros drosglwyddo data cyflogres o'r ddau gorff ac i sicrhau na wnaed taliadau ddwywaith. Yn seiliedig ar y gwaith hwn, dim ond sicrwydd cyfyngedig y gallai'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol ei roi i'r Ysgrifennydd Parhaol bod y broses o integreiddio cyflogresi wedi'i rheoli'n effeithiol, a hynny am nad oedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cadw canlyniadau eu profion ar drosglwyddo cyflogresi, a'r ffaith nad oedd llwybr archwilio cyflawn canolog a olygai na allai'r tîm archwilio mewnol wneud cysoniadau cyffredinol.

**2.11.** Roedd cam dau o'r broses o integreiddio cyflogresi yn cynnwys tua 1,400 o gyflogeion yr hen WDA a WTB. Gweithredodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar argymhellion y Gwasanaethau Archwilio Mewnol o'r adolygiad o drosglwyddo cyflogresi ACCAC ac ELWa, gan ymgymryd â'r elfen hon o'r broses integreiddio mewn ffordd gadarnach. Ymhlith yr arfer da a nodwyd roedd:

- y defnydd o broses trosglwyddo data electronig, yn hytrach na'r broses trosglwyddo data â llaw a fabwysiadwyd ar gyfer gwybodaeth am gyflogres ACCAC ac ELWa;
- cyfraniad cynrychiolydd o'r darparwr gwasanaeth cyflogres allanol ar y tîm prosiect a gynlluniodd ac a reolodd gam dau o'r broses integreiddio;
- y defnydd o system data cyflogres gyfochrog i brofi'r trefniadau cyflogres integredig gan ddefnyddio ffug ddata cyn i'r system fynd yn fyw.


**2.12.** Ar gyfer cam dau, rhoddodd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol fwy o sicrwydd bod y broses o drosglwyddo cyflogresi'r hen WDA a WTB wedi'i gweithredu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, er na welodd y Gwasanaethau Archwilio Mewnol unrhyw daliadau gwallus i staff Llywodraeth y Cynulliad, ni allai gadarnhau ar gyfer y naill gam na'r llall o brosiect y gyflogres na allai taliadau dyblyg neu wallus fod wedi'u gwneud. Mae fy staff wedi adolygu canlyniadau gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol ac wedi trafod eu canfyddiadau gyda hwy, ac felly rwyf yn fodlon na fyddai unrhyw dandaliadau na gordaliadau posibl wedi arwain at wallau perthnasol yng nghyfrifon 2006-07.

### Ar gyfer 2006-07, roedd y perfformiad talu'n brydlon yn gyffredinol wedi parhau yn uwch na meincnod y sector cyhoeddus sef 95 y cant, er bod uno ELWa ag AADGOS wedi arwain at ddirywiad ym mherfformiad talu'r adran honno yn y byrdymor yn y cyfnod ar ôl uno'r CCNCau

**2.13.** Mae Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus dalu anfonebau cyflenwyr nad oes dadl yn eu cylch o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn nwyddau neu wasanaeth neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Perfformiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2006-07 oedd 97.4 y cant, fel y dangoswyd ar dudalen 7 o'r cyfrifon a gyflwynir ar y cyd â'r adroddiad hwn.

**2.14.** Ymgymerodd fy staff â gwaith i ganfod a fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y perfformiad talu o ganlyniad i'r uno. Gwelsant fod gostyngiad sylweddol ym mherfformiad talu'n brydlon AADGOS am chwe mis ar ôl yr uno. Y prif reswm dros hyn oedd uno ELWa ag AADGOS, gan mai 70 y cant yn unig oedd perfformiad y CCNC hwnnw o ran talu'n brydlon yn ystod ei flwyddyn olaf mewn bodolaeth. Gwelodd fy staff hefyd, ar gyfer yr un cyfnod, fod AMARh yn un o'r tair adran waethaf yn Llywodraeth y Cynulliad o ran cyflawni'r targed o dalu'n brydlon er, fel y noda Arddangosyn 2, i'w pherfformiad barhau'n uwch na'r targed o 95 y cant drwy gydol y flwyddyn.

**Dengys Arddangosyn 2 ganran yr anfonebau a dalwyd bob mis y tu allan i'r targed o 30 diwrnod yn ystod 2006-07 ar gyfer y ddwy adran a grëwyd wrth uno, a bod perfformiad cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau'n uwch na'r targed o dalu 95 y cant o anfonebau'n brydlon drwy gydol y flwyddyn**





**2.15.** Ar ddyddiad yr uno, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad ei systemau newydd ar gyfer archebion prynu a gweinyddu grantiau (a elwir yn 'e-brynu ac 'e-grantiau') yn raddol er mwyn symleiddio ei threfniadau talu. Wrth wneud hynny derbyniodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad rai o arferion gwaith electronig rhai o'r CCNCau a unwyd. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrth fy staff fod oedi wedi bod yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf ar ôl yr uno cyn sefydlu rhai trefniadau dirprwyo mewnol o fewn y systemau newydd i ganiatáu awdurdodi talu anfonebau. Nodaf fod perfformiad cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad o ran talu'n brydlon wedi parhau'n uwch na'r targed o 95 y cant drwy gydol y flwyddyn ac yn fwy na 99 y cant ar gyfer mis Mawrth 2007.

**Ers yr uno, mae'r cynnydd sylweddol yn nifer trafodion derbyniadau wedi arwain at oedi cyn bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn eu dyrannu i'r adran berthnasol**

**2.16.** Pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn cael taliadau arian parod, mae'n bwysig eu dyrannu'n gyflym i'r adran berthnasol. Oni wneir hyn, bydd gwybodaeth reoli ym mhob adran yn anghywir ac efallai y gallai camau gael eu cymryd i adennill dyledion yn erbyn pobl sydd eisoes wedi talu. Ar ôl yr uno, bu cryn oedi cyn dyrannu taliadau i adrannau, yn bennaf am fod llawer mwy o daliadau o'r fath ond hefyd am fod rhai o'r taliadau yn golygu mwy o waith gweinyddol nag yn systemau blaenorol Llywodraeth y Cynulliad. Mae Arddangosyn 3 yn cymharu perfformiad cymharol prosesau dyrannu derbyniadau Llywodraeth y Cynulliad am chwarter cyntaf 2005-06, 2006-07 (y cyfnod yn union ar ôl yr uno) a 2007-08 (sef y flwyddyn ariannol gyfredol).

**Dengys Arddangosyn 3 werth derbyniadau a gymerodd fwy na 30 diwrnod i'w dyrannu yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ar gyfer 2005-06, 2006-07 a 2007-08**



### Mae trefniadau adrodd ariannol Llywodraeth y Cynulliad yn casglu ac yn cofnodi llawer ond nid pob un o'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r broses uno

**2.17.** Yn dilyn cyhoeddiadau'r Prif Weinidog am uno'r CCNCau yn 2004, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei bod wedi nodi cyllideb dros dro o tua £11.9 miliwn am gostau a oedd yn gysylltiedig â'r broses uno, ac y byddai'r broses uno yn arwain at arbedion blynyddol cylchol o tua £10 miliwn o 2009, ar ôl ei chwblhau. Nid oedd yr amcangyfrif dros dro o gostau (a oedd yn cynnwys £4.7 miliwn ar gyfer 2005-06 a £7.2 miliwn ar gyfer 2006-07) yn cynnwys yr holl gostau diswyddo, gan na ellid asesu'r rhain bryd hynny.

**2.18.** Roedd yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad gynnwys costau'r broses o uno'r CCNCau a throsglwyddo swyddogaethau eraill i Lywodraeth y Cynulliad (gan gynnwys Cyngor Ieuenctid Cymru), yn ei chyfrifon adnoddau er mwyn cydymffurfio â safonau cyfrifyddu'r DU. Mae nodyn 35 i'r cyfrif yn datgelu'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r uno yr aeth y CCNCau iddynt yn y cyfnod cyn uno neu a ariannwyd o gyllideb uno Cronfa Buddsoddi Llywodraeth y Cynulliad. Y categori olaf hwn yw'r elfen o gyfanswm costau'r broses uno yr aeth Llywodraeth y Cynulliad iddynt ac na ellid eu hariannu o arbedion o fewn cyllidebau a ddyrannwyd ar gyfer costau rhedeg adrannol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2005-06 a 2006-07. Ni chofnodwyd y costau a ariannwyd o'r cyllidebau hynny a ddyrannwyd ar wahân gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a, gan nad oes system cofnodi amser fanwl i gofnodi'r amser a dreuliodd staff ar weithgareddau yn ymwneud â'r broses uno, nid yw'n bosibl felly nodi cyfanswm y gwariant ar y broses o uno CCNCau.

**2.19.** Mae Arddangosyn 4 yn crynhoi costau'r broses uno a gofnodwyd yn ôl sefydliad hyd yn hyn, ynghyd â chostau disgwyliedig yn y dyfodol fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2007, ac yn cysoni'r costau hyn â chyfanswm y costau a gofnodwyd yn Nodiadau 16 a 35 i gyfrifon 2006-07. Yna mae Arddangosyn 5 yn rhoi dadansoddiad o'r holl gostau hynny a gofnodwyd yn ôl math o wariant, gan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i datgelu yn y cyfrifon eu hunain. (Dangosir y ffigurau yn y ddau arddangosyn mewn £000au er cysondeb a defnyddir y confensiwn talgrynnu yn y cyfrifon).

**Dengys Arddangosyn 4 yr aethpwyd i £10.8 miliwn o gostau i gyd o'i gymharu â'r £11.9 miliwn a ragwelwyd yn wreiddiol ar gyfer uno'r CCNCau. Cofnodwyd costau o £14.5 miliwn i gyd, gan gynnwys diswyddiadau a throsglwyddo Cyngor Ieuenctid Cymru i Lywodraeth y Cynulliad**

| Corff a unwyd | Nodyn 35 | | Amcangyfrif o Gostau yn y dyfodol – Nodyn 16 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | 2005-06 (ailddatganwyd) £'000 | 2006-07 £'000 | | |
| ACCAC | 154 | | | 154 |
| ELWa | 597 | | | 597 |
| WDA | 938 | | | 938 |
| WTB | 110 | | | 110 |
| Cyfrif cyfunol CCC | 3,983 | 3,244 | 456 | 7,683 |
| Diwylliant | - | 282 | - | 282 |
| Proffesiynau Iechyd Cymru | - | 273 | - | 273 |
| Tir Gofal | - | 806 | - | 806 |
| **is-gyfanswm (gwariant gwirioneddol yn erbyn cyllideb)** | **5,782** | **4,605** | **456** | **10,843** |
| ychwaneger: Costau Diswyddo'r WDA | 3,297 | | | 3,297 |
| ychwaneger: Trosglwyddo Cyngor Ieuenctid Cymru | - | 400 | - | 400 |
| **CYFANSWM (yn ôl cyfrifon 2006-07)** | **9,079** | **5,005** | **456** | **14,540** |

**Mae Arddangosyn 5 yn rhoi dadansoddiad yn ôl categori cost o'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses uno a gofnodwyd yn Nodiadau 16 a 35 i gyfrifon 2006-07**

| Math o Wariant | Nodyn 35 | | Amcangyfrif o Gostau yn y dyfodol Nodyn 16 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | 2005-06 (ailddat-ganwyd) £'000 | 2006-07 £'000 | | |
| Diswyddiadau | 3,297 | - | - | 3,297 |
| Costau staff eraill | 1,082 | 1,743 | - | 2,825 |
| Costau TG | 3,182 | 756 | - | 3,938 |
| Swyddfeydd | 624 | 1,105 | 456 | 2,185 |
| Ymgynghoriaeth | 402 | 982 | - | 1,384 |
| Hyfforddiant | 384 | 115 | - | 499 |
| Arall | 108 | 304 | - | 412 |
| **Cyfanswm** | **9,079** | **5,005** | **456** | **14,540** |

### Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi gwireddu'r holl arbedion arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r broses uno eto, ond mae'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yn fwy na'r rhagamcanion gwreiddiol

2.20. Mae'r gwaith o nodi a sicrhau arbedion yn deillio o'r broses uno yn cael ei arwain gan bob un o'r adrannau perthnasol ac mae wedi'i oruchwylio gan Fwrdd Prosiect Effeithlonrwydd sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Llywodraeth y Cynulliad. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn rhagweld y bydd y prosiectau Datblygu Sefydliadol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn y pedair adran y trosglwyddwyd y mwyafrif llethol o gyn-staff y CCNCau iddynt, yn sicrhau'r rhan fwyaf o'r arbedion arfaethedig ar ôl iddynt gael eu cwblhau. O'r arbedion blynyddol amcangyfrifedig o £10 miliwn, y bwriad oedd y câi tua £1.5 miliwn ei wireddu erbyn 31 Mawrth 2007. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrifo bod tua £3.5 miliwn o arbedion gwirioneddol wedi'u sicrhau mewn termau real. Bwriadaf barhau i fonitro'r cynnydd a nodir yn erbyn y targed o £10 miliwn ac ystyried yr alldro terfynol ar ddiwedd y broses yn 2010.

## Penderfynodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a hynny'n rhesymol, leihau risgiau gweithredol ac ariannol y broses uno drwy gadw eu systemau ariannol cyfredol yn y byrdymor

**2.21.** O gofio'r cyfnod cymharol fyr cyn uno, penderfynodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad beidio â bachu ar unwaith ar y cyfle a gynigiwyd gan y broses uno i gyflwyno system ariannol newydd i ddiwallu eu hanghenion busnes presennol ac yn y dyfodol.

**2.22.** Yn hytrach na hynny, dewisodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, a hynny'n rhesymol, barhau i ddefnyddio eu systemau ariannol cyfredol yn y cyfnod wedi'r uno, a thrwy hynny geisio lleihau'r risg o golli gwasanaeth i ddefnyddwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol. Drwy wneud hynny daethant i ddeall yn well anghenion ariannol a gwybodaeth reoli eu gweithrediadau busnes estynedig yn y cyfnod ar ôl uno, ac yna penderfynu a fyddai angen system ariannol newydd yn y tymor canolig.

### Drwy wneud y newidiadau lleiaf posibl i systemau craidd ar ddyddiad yr uno, ni fachodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar y cyfle i ddiwygio eu strwythur codio ariannol

**2.23.** Cyn yr uno, penderfynodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad beidio â diwygio strwythur codio ariannol eu prif system gyfrifyddu, er mwyn ei gwneud yn haws i ymgorffori'r strwythurau codio a weithredir gan y CCNCau a oedd yn uno. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrth fy staff iddynt benderfynu, o safbwynt rheoli risg, na allai'r Is-adran Gyllid wneud y newidiadau yn llwyddiannus ac mewn pryd, er iddynt sylweddoli y byddai newid o'r fath yn fuddiol ac yn wir yn ddymunol; yn enwedig gan fod cymaint o staff Cyllid eisoes yn ymgymryd â materion a oedd yn gysylltiedig â'r broses uno.

**2.24.** Gan nad oedd strwythur cyfrifyddu diwygiedig na chydweddol roedd angen alinio'r gwahanol strwythurau codio â llaw ar ôl yr uno. Yn hytrach na defnyddio proses drosglwyddo awtomatig i drosglwyddo balansau a thrafodion yr hen CCNCau i gofnodion ariannol Llywodraeth y Cynulliad, defnyddiwyd proses drosglwyddo â llaw yn bennaf, a fu'n llai effeithlon ac yn fwy tebygol o arwain at wallau.

**2.25.** Hefyd, dewisodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drosglwyddo'r data ar y dechrau ar sail gryno, yn hytrach nag ar lefel trafodion unigol (fel sy'n fwy arferol mewn achosion o'r fath yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat). Er enghraifft, trosglwyddwyd cyfanswm balansau dyledwyr pob CCNC ar 31 Mawrth 2006 i lyfrau cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad, ond ni throsglwyddwyd balansau dyledwyr unigol am sawl mis arall. Golygai hyn fod yn rhaid i rai aelodau o staff yr hen CCNCau edrych ar systemau lluosog yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn cael gwybodaeth reoli ystyrlon ar drafodion cyn yr uno.

### I staff yr hen CCNCau aeth y wybodaeth reoli a oedd ar gael iddynt yn llai defnyddiol

**2.26.** Ystyriwyd y prosiect uno anghenion gwybodaeth reoli sefydliad estynedig Llywodraeth y Cynulliad ac, yn benodol, hyfforddiant priodol i staff a oedd yn ymuno â Llywodraeth y Cynulliad ar ei systemau a'i phrosesau busnes ei hun. Roedd cyflwyno'r system e-brynu ac e-grantiau yn enghraifft o hyn. Fodd bynnag, nid ystyriodd y prosiect yn fanwl natur ac ansawdd y wybodaeth reoli y byddai ei hangen yn Llywodraeth y Cynulliad ar ôl yr uno, nac ychwaith a fyddai parhau â'i threfniadau cyfredol yn unig yn diwallu anghenion busnes staff y CCNCau a unwyd.

**2.27.** Yn ystod eu gwaith archwilio ar gyfrifon 2006-07, cadarnhaodd fy staff fod llawer o staff yr hen CCNCau wedi gweld dirywiad yn nefnyddioldeb cyffredinol y wybodaeth reoli a oedd ar gael iddynt, o gymharu â'u hen systemau a threfniadau adrodd. O ganlyniad, roedd rhai aelodau o staff yr hen CCNCau wedi datblygu nifer o drefniadau ar gyfer cofnodi data lleol a chyflwyno adroddiadau i ategu systemau gwybodaeth busnes craidd Llywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, parhaodd AMARh i ddefnyddio pecyn adrodd ar wahân (a weithredwyd gynt gan y WDA) i roi gwybodaeth fusnes allweddol benodol y tybid ei bod yn hanfodol i reoli ei gweithrediadau a'i chyllidebau.

**2.28.** Un broblem fawr i gyn-staff y WDA a WTB oedd eu bod wedi hen ymgyfarwyddo â defnyddio systemau ariannol a weithredai ar sail cofnodi ymrwymiadau. Er y gall prif system gyfrifyddu Llywodraeth y Cynulliad gofnodi trafodion ar y sail hon, nid yw wedi'i chyflunio ar hyn o bryd i'w defnyddio yn y ffordd honno; er i'w systemau e-brynu ac e-grantiau gael eu caffael i wella gweithrediad y brif system gyfrifyddu. Un effaith oedd bod rhai cyn-aelodau o staff y WDA a WTB yn teimlo bod y wybodaeth ariannol a baratowyd gan y brif system gyfrifyddu yn llai perthnasol a defnyddiol iddynt.

**2.29.** Mae'r defnydd o drefniadau lleol i unioni diffygion yn y system ariannol graidd, megis prynu systemau ychwanegol neu ddefnyddio taenlenni lleol, yn fy marn i, yn aneffeithlon yn anochel o safbwynt y sefydliad cyfan. Mae trefniadau o'r fath yn cynyddu'r risg gynhenid o wallau ac anghysondebau; yn cynyddu'r angen am ragor o wiriadau rheoli ac ymdrech gan y staff i sicrhau cysondeb rhwng systemau sydd prin yn siarad â'i gilydd; a methu â mynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol canfyddedig yng ngallu'r system graidd i baratoi adroddiadau.

**2.30.** Yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn, gwnaf sylwadau ar y camau y mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i drawsnewid eu trefniadau rheolaeth ariannol.

## 3. Cwblhawyd cyfrif adnoddau cyfunol terfynol 2006-07 yn gynt nag yn 2005-06, er bod llithriant o ran cyfrifyddu'r broses uno yn golygu na chyflawnwyd amserlen prosiect uchelgeisiol yn llwyr

### Methodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â chyflawni o dipyn yr amserlen arfaethedig ar gyfer coladu'r gwahanol asedau a rhwymedigaethau a etifeddwyd oddi wrth yr hen gyrff yn un Fantolen Agoriadol ar 1 Ebrill 2006

3.1. Roedd yn ofynnol cyfrifyddu am y newidiadau a ddaeth yn sgîl cyhoeddiad y Prif Weinidog am uno'r CCNCau yng nghyfrifon 2006-07 a gyhoeddir ar y cyd â'r adroddiad hwn. Roedd y broses gymhleth hon yn golygu adolygu a chysoni polisïau cyfrifyddu, a hefyd ailddatgan ffigurau mantolenni ac addasiadau i ganlyniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06 a gofnodwyd eisoes. Roedd angen gwneud hyn oll er mwyn paratoi Mantolen Agoriadol ar 1 Ebrill 2006 a adlewyrchai ganlyniadau cyfrifyddu uno'r pedwar Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a throsglwyddo swyddogaethau penodol eraill i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y dyddiad hwnnw.

3.2. Nododd Tîm Cyfrifon Adnoddau Llywodraeth y Cynulliad, a hynny'n gwbl gywir, fod llunio Mantolen Agoriadol yn brosiect ynddo'i hun, i'w gwblhau cyn paratoi cyfrifon blynyddol 2006-07. Golygai hyn nodi a chysoni pob un o asedau a rhwymedigaethau'r hen CCNCau unigol, a hefyd ddod i ddeall eu harferion a'u cofnodion cyfrifyddu blaenorol yn dda. (Roedd llawer o'r mathau o drafodion busnes a grëwyd gan weithgareddau'r hen CCNCau yn rhai newydd i staff cyllid Llywodraeth y Cynulliad, a bu'n rhaid iddynt ganfod sut i gyfrifyddu'n gywir am bob un o'r rhain.) Y bwriad yn wreiddiol oedd bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn hydref 2006, ac yna y câi'r Fantolen Agoriadol ei harchwilio a'i chymeradwyo erbyn mis Rhagfyr 2006.

3.3. Dangosir y dyddiadau cerrig milltir arfaethedig ar gyfer y gweithgarwch hwn a thasgau allweddol eraill yn ymwneud â pharatoi cyfrifon, ynghyd â dyddiadau gwirioneddol cwblhau pob un, yn Arddangosyn 6.

**Arddangosyn 6: Dyddiadau carreg filltir arfaethedig a gwirioneddol ar gyfer cyfrifyddu'r broses uno a phrosesau paratoi cyfrifon 2006-07**

| Gweithgaredd | Dyddiad arfaethedig ar gyfer cwblhau | Dyddiad cwblhau gwirioneddol | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Trosglwyddo cofnodion cyfrifyddu'r CCNCau a unwyd i systemau ariannol y Llywodraeth y Cynulliad | Hydref 2006 | Hydref 2006 | |
| Cau gwahanol gyfrifon banc y CCNCau | 12 Hydref 2006 | Tachwedd 2006 ac Ionawr 2007 | ELWa, WDA, ACCAC = Tach 2006; WTB = Ion 2007 |
| Llunio'r Fantolen Agoriadol ar 1 Ebrill 2006 a darparu gwybodaeth ategol i'w harchwilio | Hydref 2006 (ar gyfer Cam I a II) | Cam I = Ionawr 2007<br>Cam I = 23 Awst 2007 | Cam I = CCNCau a unwyd<br>Cam II = gweithgareddau a swyddogaethau eraill a unwyd |
| Proses 'cau meddal' mis 9 | Chwefror 2007 | dd/g | Proses yn anghyflawn a dim ond yn rhannol lwyddiannus |
| Cwblhau cysoniadau banc 31 Mawrth 2007 | 1 Mehefin 2007 | 14 Awst 2007 | Cwblhawyd cysoniadau banc 28 Chwefror 2007 ar 16 Gorffennaf 2007. |
| Paratoi cyfrif 'craidd' drafft 2006-07 i'w archwilio | 18 Mehefin 2007 | 19 Mehefin 2007 | Ni chwblhawyd drafft 19 Mehefin yn gyflawn. Cyflwynwyd drafft cyflawn i'w archwilio ar 3 Awst 2007. |
| Paratoi cyfrif cyfunol drafft 2006-07 i'w archwilio | 3 Awst 2007 | 17 Awst 2007 | Bu rhai hepgoriadau yn nrafft 17 Awst hefyd Cyflwynwyd drafft cyflawn i'w archwilio ar 10 Medi 2007. |
| Llofnodi cyfrifon cyfunol archwiliedig 2006-07 gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu | 31 Awst 2007 | 24 Medi 2007 | Llofnodwyd y cyfrifon bum diwrnod yn gynt nag yn y flwyddyn flaenorol. |
| Cyflwyno ffurflen ddata Cyfrifon Llywodraeth Gyfan 2006-07 Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Drysorlys EM | 28 Medi 2007 | 27 Medi 2007 | Cyflawnwyd terfyn amser y Trysorlys sef 30 Medi 2007. |

3.4. Bwriad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad oedd cwblhau trosglwyddo balansau a thrafodion mewn pryd i'm staff archwilio mantolen agoriadol 1 Ebrill 2006 erbyn mis Hydref 2006. Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyflawni'r amserlen wreiddiol hon. Er i falansau'r CCNCau a oedd yn uno gael eu trosglwyddo i system gyfrifyddu Llywodraeth y Cynulliad ei hun ym mis Hydref 2006, yn ôl y bwriad, ac er iddynt gael eu hadolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn fuan wedyn, roedd y gwaith manylach ar drafodion yn dal i gael ei goladu gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac roedd maint a chymhlethdod y gwaith hwnnw yn golygu nad oedd y cyfan ar gael tan ddiwedd 2006.

3.5. Yn ôl yr amserlen ddiwygiedig y cytunwyd arni gan Fwrdd Prosiect Cyfrifyddu Adnoddau Llywodraeth y Cynulliad câi gweddill deunydd y fantolen agoriadol ei gyflwyno i'w archwilio ar ddechrau mis Ionawr 2007, a châi'r archwiliad ei gwblhau erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno o 16 Chwefror 2007. Fodd bynnag, ar ôl dadansoddi'n fanylach yr holl newidiadau y byddai angen eu hadlewyrchu yn y fantolen agoriadol ddiwygiedig, penderfynodd Tîm Cyfrifon Adnoddau Llywodraeth y Cynulliad ymgymryd â'r gwaith hwn ar ddau gam ar wahân:

- Cam I – cyfrifyddu ar gyfer uno'r pedwar CCNC.
- Cam II – gweithredu newidiadau cyfrifyddu a datgelu yn deillio o drosglwyddo'r swyddogaethau a oedd yn weddill i Lywodraeth y Cynulliad. Roedd y rhain yn cynnwys cangen Cymru o'r Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau, Cynllun Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r swyddogaethau a gyflawnid gynt gan Broffesiynau Iechyd Cymru.

3.6. Er gwaethaf gwahanu'r gwaith felly yn ddau gam, ni lwyddodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i'w gwblhau o fewn yr amserlen ddiwygiedig. Er mwyn helpu i leddfu effaith y llithriant hwn ar yr amserlen archwilio, rhannwyd y gwaith i'w gyflwyno i'w archwilio ar Gam I yn ddwy is-elfen; gan ymdrin yn gyntaf â'r WDA ac ELWa, ac yna ACCAC a'r WTB.

## Oherwydd yr oedi wrth baratoi mantolen agoriadol 1 Ebrill 2006, ynghyd ag ansawdd gwael y data a gafwyd, penderfynodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gwtogi ar elfen bwysig o'u proses arfaethedig o baratoi cyfrif adnoddau cyfunol 2006-07

3.7. Ystyriodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd sut y gellid mynd i'r afael â phroblemau a nodwyd wrth baratoi ac archwilio cyfrifon 2005-06 yn 2006-07, er mwyn sicrhau y gallai Llywodraeth y Cynulliad gyflawni amserlen gynyddol ymestynnol y Trysorlys ar gyfer cau cyfrifon cyrff cyhoeddus yn gynt.

3.8. Un o'r camau gweithredu y cytunwyd arno oedd 'cau'n feddal' rai eitemau ar y fantolen gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ym Mis 9 (hynny yw, ar 31 Rhagfyr 2006) gyda'r nod o leihau faint o waith y byddai angen ei wneud wrth baratoi'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**3.9.** Mae ymarferion 'cau'n feddal' yn gyffredin ymhlith sefydliadau sy'n paratoi cyfrifon ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn amserol, a gwelir defnydd cynyddol ohonynt ymhlith adrannau yn Whitehall, y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn cyhoeddi eu cyfrifon blynyddol cyn toriad haf y Senedd. Felly bwriadwyd i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu lofnodi cyfrifon terfynol 2006-07 ar 31 Awst 2007, fis cyfan cyn y dyddiad yn y flwyddyn flaenorol.

**3.10.** Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio cyflawni proses 'cau'n feddal' ar y raddfa hon. Nid yw'n broses syml ac roedd yn debygol o'r dechrau y byddai rhai anawsterau. Fodd bynnag, oherwydd y llithriant yn yr amserlen ar gyfer y Fantolen Agoriadol a nodwyd uchod, ac ansawdd gwael ffurflenni adrannau unigol o Lywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol mewn perthynas â'u balansau Mis 9 penderfynwyd yn y pen draw gyfyngu ar brosiect 'cau'n feddal' ar gyfer cyfrifon 2006-07. Er gwaethaf yr anawsterau hyn llwyddodd y broses 'cau'n feddal' i helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r cyfrif adnoddau cyfunol blynyddol.

## Gwelwyd ôl-groniad mawr yn datblygu o ran cwblhau cysoniadau banc misol yn amserol yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-07

**3.11.** Effaith arall y gwaith ariannol ychwanegol a mwy cymhleth a ddeilliodd o'r broses uno oedd yr effaith ar gwblhau cysoniadau banc misol Llywodraeth y Cynulliad yn amserol. Mae cysoniadau o'r fath yn rheolaeth ariannol allweddol i unrhyw sefydliad, gan eu bod yn cynnwys cysoni'r balans a nodwyd gan y banc ar ddiwedd y mis â llyfrau cyfrifon a llyfrau arian parod y corff ei hun. Mae'n arferol bod cysoniadau banc o leiaf yn cael eu cwblhau a'u hadolygu'n fuan iawn ar ôl diwedd pob mis.

**3.12.** Nodaf gyda chryn bryder bod oedi cyn cysoni cyfrifon banc Llywodraeth y Cynulliad yn fisol yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-07.

**3.13.** Nid yw'n syndod bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, pan aethpwyd ati yn y diwedd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gysoniadau, yn cael y dasg hon yn fwy beichus a chymhleth nag a ragwelwyd gan fod rhai eitemau yn anodd eu holrhain. Ni chwblhawyd cysoniadau 28 Chwefror 2007 tan 16 Gorffennaf 2007, a dim ond ar 14 Awst 2007 y cwblhawyd y cysoniadau hollbwysig diwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2007. Cwblhawyd yr holl gysoniadau misol a oedd yn weddill ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007-08 o'r diwedd ym mis Medi 2007, ac ers hynny mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gwirio trafodion yn erbyn cyfriflenni banc yn ddyddiol.

**3.14.** Un canlyniad arall yr oedi cyn terfynu cysoniadau banc ar ddiwedd y flwyddyn oedd na allai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gadarnhau nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi hawlio balans llawn cronfeydd y Trysorlys sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07 tan fis Awst 2007. Yn lle hynny, drwy ddamwain roedd wedi defnyddio ffynonellau eraill o incwm na ddaethant o'r Trysorlys ar gyfer elfennau o'i gweithrediadau a ariennir gan y Trysorlys. Oherwydd y gofyniad i bennu balans agoriadol 1 Ebrill 2007 ar gyfer y Gronfa Gyfunol newydd i Gymru (na chaniateir iddi ordynnu), bu'n rhaid i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ofyn am ganiatâd arbennig y Trysorlys yn ddiweddar ar gyfer hawlio £685,000 arall o arian y Trysorlys yn dybiannol, er mwyn pennu balans agoriadol o £dim ar Gronfa Gyfunol Cymru.

## Golygai'r problemau hyn i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad fethu â chyrraedd eu targed uchelgeisiol o ran cyhoeddi cyfrif adnoddau cyfunol 2006-07, er i'r cyfrif gael ei gwblhau'n gynt nag yn 2005-06 ac erbyn terfyn amser y Trysorlys

**3.15.** Mae'n amlwg bod yr oedi mawr wrth lunio mantolen agoriadol 1 Ebrill 2006, ynghyd â'r ffaith nad oedd prosiect 'cau'n feddal' Mis 9 ond wedi'i gwblhau'n rhannol, wedi cael effaith fawr ar y broses gyffredinol o baratoi ac archwilio Cyfrifon Adnoddau Cyfunol 2006-07. Credaf hefyd fod methiant swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i gwblhau cysoniadau banc yn amserol dros sawl mis yn achos arwyddocaol ac annerbyniol o dorri rheolaeth ariannol fewnol allweddol. Yn fy marn i, dylai uwch reolwyr fod wedi nodi'r broblem a mynd i'r afael â hi pan gododd yn gyntaf, gan ddefnyddio adnoddau staffio ychwanegol i ddileu'r ôl-groniad os oedd angen. Nodaf fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi gofyn i gamau cywiro gael eu cymryd ar unwaith cyn gynted ag y daeth yn ymwybodol o'r broblem hon ar 23 Gorffennaf 2007.

**3.16.** Mae'n siomedig nad oedd bwriad swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i gwblhau'r gwaith o baratoi ac archwilio cyfrifon 2006-07 fis ynghynt ond wedi'i gyflawni'n rhannol. Mae fy staff wedi gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y Cynulliad dros y misoedd diwethaf i geisio gwneud iawn am yr amser a gollwyd yn y broses o baratoi ac archwilio cyfrifon ac mae'n bleser nodi, o ganlyniad i ymdrechion mawr gan bawb, fod effaith gronnol yr oedi a'r anawsterau a nodwyd yn yr adroddiad hwn wedi arwain at lithriant o dair wythnos yn unig yn amserlen gyffredinol y prosiect. Nodaf hefyd fy mod wedi gallu rhoi barn ddiamod ar gyfrifon 2006-07, a bod terfynau amser statudol a therfynau amser y Trysorlys ar gyfer cyflwyno gwybodaeth archwiliedig wedi'u cyflawni.

**3.17.** Bydd yn bwysig bod swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal ymarfer trylwyr o 'wersi a ddysgwyd' yn yr hydref, yn barod ar gyfer proses cyfrifon 2007-08, ac mae fy staff yn barod i helpu gyda'r adolygiad hwnnw.

# 4. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i drawsnewid ei threfniadau rheoli ariannol. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu llwyddiant y rhaglen gymhleth hon, bydd yn hanfodol bod uwch swyddogion yn parhau i fod yn gyfrifol am y broses newid er mwyn i'r manteision arfaethedig gael eu gwireddu

## Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod yn deg fod angen newid eu trefniadau rheoli ariannol yn llwyr er mwyn ymateb i nifer o heriau sy'n ymwneud â materion sy'n hanfodol i fusnes, gan gynnwys canlyniadau uno'r CCNCau

4.1. Yng ngoleuni eu profiadau o uno'r CCNCau, mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod bod angen newid eu trefniadau rheoli ariannol yn llwyr, er mwyn iddynt ymateb yn llwyddiannus i'r heriau a'r pwysau eang a wynebant yn y dyfodol agos. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn wynebu nifer o heriau sy'n ymwneud â materion sy'n hanfodol i fusnes, a gwnaf sylwadau ar rai o'r heriau pwysicaf isod:

- Disgwylir i'r penderfyniad i sefydlu **Pwyllgor Cyllid** newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru arwain at lawer mwy o graffu manwl ar drefniadau rheoli ariannol Llywodraeth y Cynulliad. Er mwyn rhoi briffiau a gwybodaeth arall i'r Pwyllgor hwnnw bydd angen i wybodaeth reoli gael ei pharatoi ar sail fwy amserol, cyson a dibynadwy.
- O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 bydd yn ofynnol hefyd i **amserlenni cyllidebu** mewnol Llywodraeth y Cynulliad gael eu tynhau, a fydd yn ei dro yn gofyn am system gyllid hyblyg ac effeithiol i ategu'r broses gynyddol gymhleth honno.
- Yn sgîl **creu Cronfa Gyfunol Cymru** o 1 Ebrill 2007, bydd angen cryn dipyn o welliant yn nhrefniadau rheoli arian parod a rhagamcanu Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn bwysig iawn, oherwydd, yn wahanol i'r trefniadau bancio blaenorol a weithredwyd ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol, nid yw'n bosibl gordynnu ar y Gronfa Gyfunol.
- Er bod y camau cyntaf o broses uno'r CCNCau wedi dod i ben, erys llawer o waith arall i'w wneud **i integreiddio'r swyddogaethau rheoli ariannol**. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi nifer o broblemau a achoswyd gan wendidau yn eu systemau a'u prosesau presennol, ac rwyf wedi gwneud sylwadau ar rai o'r rhain yn yr adroddiad hwn.

- Fel yn achos pob corff yn y sector cyhoeddus, mae'n ofyniad gan Drysorlys EM fod cyfrifon blynyddol statudol yn cael eu paratoi'n gynt. Er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud peth cynnydd yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf, ceir tystiolaeth empirig fod gweithdrefnau'r rhan fwyaf o adrannau yn Whitehall ar gyfer **cau'n gynt** yn fwy datblygedig. I'r rhan fwyaf o'r cyrff hyn (fel sy'n digwydd yn helaeth yn y sector preifat), mae proses y cyfrifon diwedd blwyddyn wedi dod yn estyniad naturiol i adroddiadau cadarn ac amserol yn ystod y flwyddyn ar ganlyniadau ariannol. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae proses gyfredol Llywodraeth y Cynulliad o baratoi cyfrifon yn gofyn am un ymarfer blynyddol mawr lle mae angen gwneud llawer o waith â llaw er mwyn cael, adolygu a chyflwyno gwybodaeth i'w harchwilio. Mae hwn yn rhwystr mawr i wella perfformiad ac felly mae'n bwysig mynd i'r afael â'r gwendidau hyn.
- Yng nghyd-destun y sector cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad gyflawni rhai o'r nodau allweddol a nodwyd yn **Adolygiad Beecham** rhaid wrth amgylchedd rheoli ariannol gwell i raddau helaeth.

4.2. Mae'n debygol y byddai methiant sylweddol yn unrhyw un o'r meysydd allweddol hyn yn arwain at ganlyniadau gweithredol difrifol i Lywodraeth y Cynulliad, a hefyd yn peri risg o niwed i'w henw da.

## Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dechrau ar Raglen Newid gymhleth ac uchelgeisiol gyda'r bwriad o drawsnewid ei threfniadau rheoli ariannol, moderneiddio ei phrosesau busnes a helpu i gyflwyno gwelliannau cyffredinol yn y ffordd y darperir gwasanaethau

4.3. Ym mis Gorffennaf 2007, cymeradwyodd Is-Bwyllgor Strategaeth Bwrdd Rheoli'r Ysgrifennydd Parhaol yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer 'Rhaglen Newid Cyllid Corfforaethol'. Deilliodd y rhaglen drawsnewid gymhleth ac uchelgeisiol hon gwerth £9 miliwn o adolygiad mewnol a gomisiynwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid yn fuan ar ôl iddi ddechrau yn ei swydd yn 2006. Yn yr adolygiad hwnnw ystyriwyd a oedd swyddogaeth gyllid bresennol Llywodraeth y Cynulliad yn y sefyllfa orau i ymateb i'r heriau yn y dyfodol.

4.4. Nod sylfaenol y Rhaglen Newid yw '*creu llwyfan technolegol dibynadwy a all wrthsefyll heriau'r dyfodol er mwyn bodloni'r gofynion sefydliadol dros y 10 mlynedd nesaf*'[5]. Cefnogaf yn llwyr amcanion y Rhaglen Newid, sydd â'r nod o:

- ddarparu gwybodaeth ariannol gyson, amserol a dibynadwy i uwch dimau adrannol a chorfforaethol, staff a rhanddeiliaid allanol, yn fisol ac ar ddiwedd y flwyddyn;
- safoni prosesau a gweithgareddau busnes ariannol ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad er mwyn darparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol ac effeithlon;
- awtomeiddio prosesau a lleihau dyblygu i'r eithaf;

[5] *Rhaglen Newid Cyllid Corfforaethol* papur CPP (07) a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Perfformiad Corfforaethol, 3 Ebrill 2007

- darparu system gyllid integredig ar sail cyfrifyddu adnoddau (a thrwy hynny fodloni gofynion cyfrifyddu ac adrodd Trysorlys EM);
- gwneud y newidiadau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

**4.5.** Bwriadaf roi cymorth priodol i Lywodraeth y Cynulliad, fel ei harchwilydd allanol annibynnol, i helpu i sicrhau llwyddiant y prosiect pwysig hwn. Bydd uwch aelod o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect fel sylwedydd, a byddwn yn defnyddio ein profiad o brosiectau tebyg mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn y gorffennol i nodi a lledaenu dysgu a rennir ac arferion da gydag aelodau tîm y prosiect.

## Mae'n rhy gynnar i asesu a fydd y Rhaglen Newid yn arwain at yr holl fanteision arfaethedig, ond bydd proses rheoli risg gadarn a pharhad mewn perchnogaeth o'r broses newid ymhlith uwch swyddogion yn hollbwysig i'w llwyddiant

**4.6.** Fe'm calonogir gan yr hyn a welais hyd yn hyn o ran uwch reoli cadarn a chefnogaeth ymhlith randdeiliaid yn Llywodraeth y Cynulliad i nodau'r Rhaglen Newid, a chan ganlyniadau'r Adolygiad Gateway annibynnol a gynhaliwyd yn ddiweddar.

**4.7.** Er mwyn helpu i sicrhau y gweithredir y Rhaglen Newid yn llwyddiannus, mae'n hollbwysig, yn fy marn i, fod Llywodraeth y Cynulliad:

- yn parhau i reoli risg yn gadarn o ran y Rhaglen Newid a'i his-brosiectau;
- yn cadw cefnogaeth uwch reolwyr a rhanddeiliaid;
- yn sicrhau bod ei gwahanol adrannau yn gwerthfawrogi’n fwy pa mor bwysig yw rheoli ariannol cadarn, gan sicrhau bod hyn wedi'i ymgorffori'n llawn mewn prosesau gwneud penderfyniadau;
- yn ennyn awydd drwy'r sefydliad cyfan am lwyddiant a pharodrwydd i dderbyn y newidiadau diwylliannol a fydd yn anochel o dan raglen mor fawr a chymhleth â hon.

***Jeremy Colman***
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

25 Hydref 2007

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn : 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn Testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
gwefan: www.wao.gov.uk